**Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg**
—
**Children, Young People and Education Committee**

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddPlant@senedd.cymru
senedd.cymru/SeneddPlant
0300 200 6565
—
**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddChildren@senedd.wales
senedd.wales/SeneddChildren
0300 200 6565

Dafydd Llywelyn, Comisiynydd Heddlu a Throseddu
Cadeirydd Plismona yng Nghymru

11 Gorffennaf 2024

**Ymchwiliad i Blant a Phobl Ifanc sydd ar yr Ymylon**

Annwyl Dafydd,

Fel y gwyddoch efallai, rydym wrthi yn casglu tystiolaeth fel rhan o’n hymchwiliad i blant a phobl ifanc sydd ar yr ymylon. Mae'r ymchwiliad yn canolbwyntio ar blant sydd ar goll a phlant a phobl ifanc sydd wedi'u troseddoli. Ceir rhagor o fanylion am ein hymchwiliad, gan gynnwys ei gylch gorchwyl, ar ein tudalennau gwe.

Daeth y cyfnod ymgynghori ysgrifenedig ar gyfer yr ymchwiliad hwn i ben ar 23 Ionawr 2024. Rydym bellach wrthi’n casglu tystiolaeth anffurfiol gan randdeiliaid drwy gyfres o ddigwyddiadau rhanddeiliaid ac ymweliadau ymgysylltu. Fodd bynnag, oherwydd pwysau ar ein blaenraglen waith, rydym wedi penderfynu ceisio tystiolaeth ysgrifenedig wedi'i thargedu gan randdeiliaid allweddol yn hytrach na chynnal sesiynau tystiolaeth lafar ffurfiol. Yna byddwn yn cynnal sesiwn graffu ar y cyd ag Ysgrifennydd y Cabinet dros Ddiwylliant a Chyfiawnder Cymdeithasol a’r Gweinidog Gwasanaethau Cymdeithasol ar 19 Medi 2024.

Rydym felly yn ceisio eich barn ar unrhyw agwedd ar yr ymchwiliad i gryfhau ein tystiolaeth ysgrifenedig. Yn ogystal â’r sylwadau a ddarparwyd gennych yn eich ymateb ysgrifenedig i’r ymgynghoriad, byddem yn gwerthfawrogi cael eich barn am y pwyntiau penodol a ganlyn:

- Cyfeiriad Strategol: Sut ydych chi wedi ymgorffori mater camfanteisio’n droseddol ar blant yn eich cyfeiriad strategol ar gyfer heddluoedd Cymru? Pa amcanion penodol ydych chi wedi’u gosod i fynd i’r afael â’r mater hwn?
- Dyrannu Adnoddau: Sut mae adnoddau’n cael eu dyrannu i fynd i’r afael â chamfanteisio’n droseddol ar blant? A welwyd bod rhyw gyllid neu adnoddau penodol

wedi bod yn arbennig o ddefnyddiol wrth gefnogi gwaith swyddogion rheng flaen a thimau ymchwilio?

Byddwn yn ddiolchgar o gael eich ymateb erbyn dydd Gwener 23 Awst 2024 fan bellaf fel y gallwn ystyried eich barn cyn ein sesiwn graffu gyda Llywodraeth Cymru.

Yn gywir,

Buffy Williams AS
Cadeirydd

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg.

We welcome correspondence in Welsh or English.